# Canfyddiadau ymchwil: Ymgysylltiad academaidd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

**Dr Danielle Beswick, Prifysgol Birmingham a**

**Dr Marc Geddes, Prifysgol Caeredin**

**Ionawr 2020**

## 1. Cefndir a strwythur

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau allweddol adolygiad o weithgareddau ymgysylltu academaidd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gwnaed yr ymchwil gan Dr Danielle Beswick (Prifysgol Birmingham) a Dr Marc Geddes (Prifysgol Caeredin) rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2019. Roedd yr astudiaeth hon yn rhan o brosiect ehangach ar gyfnewid gwybodaeth[1] rhwng academyddion a phedair deddfwrfa'r DU, ac a ariannwyd y gwaith gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Mae ymgysylltu ag ymchwilwyr academaidd yn gysylltiedig â phob un o'r tri nod allweddol a restrir yn Strategaeth Comisiwn y Cynulliad (2016-21) (PDF, 1.3 MB), sef darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf, ymgysylltu â holl bobl Cymru, hyrwyddo'r Cynulliad, a defnyddio adnoddau'n ddoeth. Ar ei orau, gall ymgysylltu ag academyddion helpu staff y Cynulliad i: ddarparu papurau briffio a chymorth mwy diweddar a manwl i Aelodau; cyrraedd academyddion mewn prifysgolion ar draws Cymru a thu hwnt, gan eu haddysgu am rôl y Cynulliad ac ymchwil o fewn maes polisi a gwaith craffu; a chyflwyno arbenigedd sy'n ychwanegu gwerth gwirioneddol am gost gymharol isel i'r Cynulliad. Mae gweithgareddau ymgysylltu academaidd y Cynulliad yn cynnwys gweithgareddau ffurfiol a strwythuredig ynghyd â chydberthnasau personol mwy ad hoc. Mae gweithgareddau ffurfiol yn cynnwys y rhai a ganlyn, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: cymrodoriaethau academaidd ar gyfer ysgolheigion sefydledig; lleoliadau interniaeth PhD; seminarau; adolygiad gan gymheiriaid o ddogfennau'r Cynulliad a cheisiadau am grant ymchwil academaidd; cyfranogiad swyddogion mewn grwpiau llywio prifysgolion; mynd i gynadleddau academaidd; academyddion sy'n cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar i bwyllgorau; academyddion sy'n cael eu penodi fel cynghorwyr pwyllgorau; academyddion sy'n cynorthwyo gydag ymholiadau Aelodau. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y cymrodoriaethau academaidd, yn unol â chais gan Ymchwil y Senedd, er ei fod hefyd yn nodi rhai sylwadau ar ymgysylltu

[1] Mae cyfnewid gwybodaeth yn y cyd-destun hwn yn disgrifio'r prosesau y mae ymchwil ac arbenigedd academaidd yn cael eu dwyn i mewn i waith deddfwrfeydd, a hefyd y ffyrdd y mae deddfwrfeydd yn ceisio llywio gwaith ymchwilwyr academaidd. Mae cyfnewid gwybodaeth yn rhagflaenydd i ymchwil academaidd, ond yn wahanol i ymchwil academaidd, sy'n cael effaith ar ddeddfwrfeydd a'u gweithgareddau craffu.

academaidd â gwaith pwyllgorau, ac i raddau llai, interniaethau PhD. Mae hyn yn adlewyrchu cydbwysedd y data a gasglwyd drwy gyfweliadau a'r dogfennau a ddarparwyd i ategu'r adolygiad hwn.

Mae'r adroddiad yn parhau mewn pum adran. Mae adran 2 yn esbonio pa ddata a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad a sut. Mae adran 3 yn cyflwyno safbwyntiau staff y Cynulliad o ran y gwerth canfyddedig a ddaw yn sgil ymgysylltu academaidd, gan gynnwys sut y mae gwaith ymchwil academaidd yn cymharu â ffynonellau gwybodaeth eraill. Mae adran 4 yn defnyddio cyfweliadau â staff prifysgolion, ac yn gofyn i academyddion a phrifysgolion nodi cymhellion i academyddion a phrifysgolion ymgysylltu â deddfwrfeydd. Mae adran 5 yn canolbwyntio ar y cylch o gymrodoriaethau academaidd a gwblhawyd yn ddiweddar, ac yn amlygu manteision a heriau yn ogystal â rhai o'r awgrymiadau ar gyfer gwella a ddaeth i'r amlwg o'r cyfweliadau. Yn adran 6, rydym yn edrych yn fanwl ar fathau eraill o ymgysylltu academaidd a grybwyllwyd gan y bobl a gafodd eu cyfweld, sef ymchwiliadau pwyllgor, interniaethau PhD a'r fframwaith BREXIT, cyn crynhoi'r argymhellion sy'n deillio o'r prosiect cyfan yn adran 7.

## 2. Casglu data

Rhwng mis Mehefin a mis Medi 2019, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig yn Nhŷ Hywel a thros y ffôn gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Cafodd yr holl bobl a gafodd eu cyfweld daflen wybodaeth am y prosiect a chopi o ffurflen gydsynio ymlaen llaw, a chofnodwyd y cydsyniad yn ysgrifenedig neu ar lafar. Roedd y cymryd rhan yn wirfoddol, a rhoddwyd gwybod i'r rhai a gafodd eu cyfweld am eu hawl i dynnu'n ôl heb unrhyw effeithiau personol negyddol.

Mae Tabl 1 isod yn dangos manylion y bobl a gafodd eu cyfweld.

*Tabl 1:*

| **Categori'r cyfweliad** | **Rhif** |
|---|---|
| Staff y Cynulliad (yn cynnwys gwasanaeth Ymchwil y Senedd a gwasanaeth y Clercod) | 10 |
| Cymrodyr academaidd (carfan 2018-19) | 5 |
| Staff gwasanaeth proffesiynol y Brifysgol | 3 |

## 3. Gwerth ymgysylltu academaidd ar gyfer deddfwrfeydd

Mae ymchwilwyr academaidd yn cael eu nodweddu gan staff y Cynulliad fel un elfen o fewn ecosystem wybodaeth ehangach y mae staff Ymchwil y Senedd, yr Aelodau, a phwyllgorau yn ymgysylltu â hwy. Mae'r ymchwil academaidd yn cyd-fynd â safbwyntiau gan eraill, gan gynnwys unigolion sydd â phrofiad o fater polisi, darparwyr

gwasanaethau, sefydliadau trydydd sector a chyrff proffesiynol. Dywedwyd bod gwaith pob un ohonynt yn bwysig wrth sicrhau bod gan staff ac Aelodau'r Cynulliad safbwynt gwybodus ar fater polisi. Serch hynny, nododd y rhai a gafodd eu cyfweld ar draws pob un o'n tri chategori resymau penodol dros ymgysylltu ag academyddion o'u cymharu â mathau eraill o randdeiliaid. Gellir gwahanu'r rhain yn rhinweddau sy'n gysylltiedig ag academyddion fel proffesiwn a nodweddion y gwaith ymchwil a gynhyrchir ganddynt, a nodir isod:

| **Manteision ymgysylltu ag ymchwilwyr academaidd** | **Manteision ymgysylltu â gwaith ymchwil a gynhyrchir gan academyddion** |
|---|---|
| *Hidlo gwybodaeth:* Y gallu i esbonio dadleuon academaidd allweddol a thystiolaeth ar bwnc, a sicrhau bod staff ac Aelodau yn 'dysgu am bob agwedd' ar feysydd cymhleth yn gyflym<br><br>*Gwybodaeth arbenigol*: Gallu cynnig sgiliau a gwybodaeth dechnegol neu fanwl am fater nad yw ar gael yn fewnol (fel rhan o wybodaeth Ymchwil y Senedd)<br><br>*Enw da proffesiynol:* Mae'n bosibl y bydd gan unigolion proffil uchel enw da ymhlith Aelodau a'r cyhoedd, a fyddai'n rhoi hygrededd ac awdurdod<br><br>*Rhagor o ryddid:* Ystyrir bod ganddynt ragor o ryddid i fod yn feirniadol o bolisïau'r Llywodraeth nag, er enghraifft, darparwyr gwasanaeth a allai ddibynnu ar gyllid y llywodraeth<br><br>*Rhwydweithiau:* Yn darparu mynediad at rwydwaith ehangach o gysylltiadau academaidd ac anacademaidd (e.e. partneriaid a chyfranogwyr ymchwil), gan gynnwys tystion neu gynghorwyr posibl pwyllgorau.<br><br>*Cyswllt yn y dyfodol:* Yn meithrin ymddiriedaeth sy'n caniatáu rhyngweithio yn y dyfodol, er enghraifft, i edrych ar agweddau ar ymchwiliad neu restr tystion posibl<br><br>*Llunio'r maes ymchwil yn y dyfodol*: Gall | *Gwrthrychedd:* Ystyrir ei fod yn llai seiliedig ar agenda o'i gymharu â'r gwaith ymchwil a gynhyrchir gan eraill, fel darparwyr gwasanaethau neu gyrff y diwydiant, neu wybodaeth a gyflwynir gan unigolion/grwpiau yr effeithir arnynt yn bersonol neu sy'n gysylltiedig<br><br>*Cadernid*: Ystyrir bod y wybodaeth yn fwy cadarn yn fethodolegol oherwydd gofynion y sefydliad/cyllidwr ar gyfer adolygiad gan gymheiriaid<br><br>*Moeseg:* Ystyrir ei bod yn gadarn o ran moeseg oherwydd gofynion y sefydliad/cyllidwr ar gyfer adolygiad moesegol ac adolygiad gan gymheiriaid<br><br>*Hygyrchedd*: Gellid cyhoeddi'r gwaith ymchwil a'i wneud yn gyhoeddus<br><br>*Cymharu:* Gallu myfyrio ar sut y gallai syniadau o gyd-destunau eraill fod yn berthnasol – neu beidio – yng Nghymru |

| | |
|---|---|
| staff y Cynulliad ddefnyddio eu gwybodaeth am y ddeddfwrfa i helpu academyddion i lunio agendâu ymchwil sy'n berthnasol i heriau polisi a gwaith craffu allweddol<br><br>*Addysg*: Codi cynefindra academyddion â phrosesau deddfwrfeydd a chyfleoedd i gyfrannu gwybodaeth ymchwil. | |

Mae'n amlwg bod swyddogion y Cynulliad o'r farn bod ymgysylltu ag academyddion yn werthfawr ac yn angenrheidiol, ond y gall hefyd gyflwyno heriau. Ni allai ehangder a dyfnder y meysydd polisi a ddatganolwyd gael eu cwmpasu'n gyfan gwbl gan Ymchwil y Senedd. Yn benodol, mae angen parhaus am wybodaeth arbenigol i gynorthwyo staff i grynhoi gwaith ymchwil sy'n bodoli eisoes, i nodi bylchau a llwybrau ar gyfer ymchwiliad, ac i ddarparu cyd-destun a chymhariaeth â gweddill y DU ac yn rhyngwladol. Hyd yn oed pan fydd yn ymarferol i staff y Cynulliad adolygu a chrynhoi'r dystiolaeth ymchwil ar fater polisi, mewn modd amserol ochr yn ochr â chyfrifoldebau eraill, ceir adegau pan fydd cael ffynhonnell allanol, yn benodol academydd, yn well o bosibl. Er enghraifft, dywedodd un swyddog fod academyddion yn 'fwy rhydd i roi beirniadaeth adeiladol' o bolisi'r Llywodraeth, gan eu cymharu â darparwyr gwasanaethau a allai deimlo eu bod wedi'u cyfyngu gan bod angen cadw perthynas dda â'r Llywodraeth. Roedd yn amlwg hefyd, o ran pynciau arbennig o dechnegol a chymhleth, y byddai cael staff Ymchwil y Senedd i dreulio'r amser angenrheidiol yn datblygu digon o arbenigedd i friffio Aelodau yn ddefnydd anghymesur o adnoddau. Gall defnyddio arbenigedd allanol gan academyddion lenwi'r bylchau hyn o ran gwybodaeth, yn ogystal â chyflwyno sgiliau ac arbenigedd methodolegol penodol, gan ychwanegu gwerth at waith y deddfwrfeydd.

4. <u>Cymhellion i academyddion a phrifysgolion</u>

Nid yw'r manteision o ran deddfwrfeydd yn ymgysylltu ag academyddion yn broses sy'n llifo un ffordd yn unig, er bod rhai swyddogion wedi mynegi barn y gall ymgysylltu academaidd deimlo'n eithaf 'echdynnol' o bryd i'w gilydd. Wrth gael eu holi am y cymhellion sy'n sail i'r cyfnewidfeydd hyn, nododd y rhai a gafodd eu cyfweld amrywiaeth o ffyrdd y gallai academyddion a phrifysgolion elwa ar y rhyngweithio. Mae rhai o'r rhain yn cael eu llunio gan y math penodol o ymgysylltu. Er enghraifft, mae cymrodoriaeth yn cynnig rhagor o gyfleoedd i feithrin gwybodaeth academyddion am arlliw gwaith craffu sydd wedi'i lywio gan waith ymchwil, yn hytrach nag ysgrifennu blog ar y cyd. Gan nodi'r gwahaniaethau hyn, ceir crynodeb isod o'r themâu cyffredinol a gododd o ganlyniad i'r cyfweliadau:

| Manteision i'r academydd | Manteision i'r Brifysgol |
|---|---|
| Sgiliau ysgrifennu ar gyfer Aelodau a staff y Cynulliad<br><br>Gwell gwerthfawrogiad o sut mae gwaith ymchwil yn llywio gwaith craffu<br><br>Cyfle i ddefnyddio ei waith ymchwil ei hun i lywio a gwella gwaith craffu<br><br>Cyfle i ddatblygu cysylltiadau ag Aelodau'r Cynulliad<br><br>Datblygu rhwydweithiau proffesiynol gyda staff y Cynulliad, a allai barhau'n hwy na'r gweithgarwch cychwynnol<br><br>Datblygu rhwydweithiau proffesiynol gyda rhanddeiliaid ehangach (e.e. cymdeithas sifil, y Llywodraeth)<br><br>Cyfle i brofi diwylliant gwaith a chyd-destun gwahanol (yn bennaf i gymrodyr academaidd ac interniaid PhD)<br><br>Posibilrwydd i ddefnyddio'r profiad i lywio eu haddysgu ac i godi ymwybyddiaeth myfyrwyr o waith y Cynulliad.<br><br>Posibilrwydd i hybu gyrfa, gan gynnwys dyrchafiad, yn seiliedig ar fri yr ymgysylltu | Cyfle i ddangos eu bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid anacademaidd (sy'n arbennig o berthnasol yng nghyd-destun Fframwaith Cyfnewid Gwybodaeth yn y dyfodol)<br><br>Cyfle i ddangos effaith gymchwil ar randdeiliaid anacademaidd (yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil)<br><br>Gwell arbenigedd a phrofiad mewnol ar ymgysylltu â'r ddeddfwrfa, a allai lywio hyfforddiant, datblygu, ac addysgu staff.<br><br>Y bri o gael ei ystyried yn sefydliad dinesig ac ymroddedig. |

Roedd swyddogion ac academyddion prifysgolion yn gweld y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF), a disgwyliad mwy cyffredinol y dylai prifysgolion ddangos manteision eu gwaith ymchwil i'r gymdeithas ehangach, fel ysgogwyr allweddol o ran ymgysylltu â deddfwrfeydd. Adlewyrchir hyn yn y buddsoddiad y mae prifysgolion wedi'i wneud wrth gefnogi academyddion i ymgysylltu â'r Cynulliad. Mae cymorth o'r fath yn cynnwys neilltuo amser staff academaidd i ymgysylltu â deddfwrfa yn ymwneud â modelau llwyth gwaith, ariannu'r costau i benodi rhywun i addysgu dros dro a chostau teithio, cyflogi staff cymorth proffesiynol i hwyluso cyfnewid, a darparu hyfforddiant i staff ar sut i ymgysylltu â deddfwrfeydd. Fodd bynnag, daw'r buddsoddiad hwn gyda'r disgwyliad y bydd staff y brifysgol ac academyddion yn gallu dangos gwerth y gwaith ymgysylltu, i'r ddeddfwrfa ac i'r brifysgol. Byddwn yn dychwelyd at hyn yn nes ymlaen.

I academyddion, roedd y cyfle – a fynegwyd gan rai fel cyfrifoldeb - i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y byd yn sgîl eu gwaith ymchwil yn gymhelliad allweddol ar gyfer ymgysylltu. Roedd thema gref hefyd o gyfrifoldeb dinesig a chenedlaethol, gydag academyddion yn dymuno cyfrannu at waith y ddeddfwrfa gymharol ifanc yng Nghymru yn arbennig, i ddatblygu a chefnogi'r gallu i gyflawni gwaith craffu effeithiol yn seiliedig ar waith ymchwil. Nid oedd bron pob un o'r academyddion y gwnaethom siarad â hwy erioed wedi ymgysylltu ag unrhyw ddeddfwrfa yn y DU ar wahân i'r Cynulliad. Roedd dilyniant gyrfa yn tueddu i gael ei ystyried yn llai na chyfrifoldeb dinesig gan y rhai a gafodd eu cyfweld gennym. Nid oedd llawer ohonynt yn disgwyl cael dyrchafiad yn seiliedig ar y gweithgarwch hwn, er bod rhai wedi mynegi pryderon nad oedd eu prifysgolion yn gwerthfawrogi’r gwaith hwn yn iawn. Roedd hyn eto'n adlewyrchu, i raddau helaeth, nad oedd y gwahaniaeth a wnaed drwy ymgysylltu academaidd â deddfwrfeydd yn hawdd i'w adnabod na'i fesur bob amser.

Ar ôl nodi'r prif resymau a roddwyd dros ymgysylltu academaidd, o safbwynt deddfwrfa yn ogystal ag o safbwynt yr academyddion y maent yn ceisio ymgysylltu â hwy a'r prifysgolion sy'n cefnogi'r rhyngweithiadau hyn, trown yn awr at ddulliau penodol y bwriedir iddynt hwyluso'r cyfnewid hwn, sef: cymrodoriaethau, ymgysylltiad pwyllgorau, ac interniaethau PhD.

5. <u>Cymrodoriaethau Academaidd</u>

Mae'r Cynulliad wedi cynnal dwy rownd o ddigwyddiadau i gymrodyr academaidd. Mae'r rhain wedi'u hanelu at academyddion sefydledig ac fe’u hariannir naill ai gan y prifysgolion (drwy Gyfrifon Cyflymu Effaith, amser staff a chostau teithio/ymchwil) neu gan y Cynulliad, neu gyfuniad o'r rhain. Mae parodrwydd y Cynulliad i ddarparu cefnogaeth gyda chostau gwaith ymchwil a theithio i'w ganmol, gan fod y gefnogaeth yn helpu i wneud cymrodoriaethau yn hygyrch i academyddion ar wahanol gamau o’u gyrfa a gwahanol fathau o gontractau. Roedd y cymrodoriaethau academaidd a hysbysebwyd yn 2018 yn cynnwys galwadau agored a galwadau wedi’u cyfeirio, gyda’r pynciau ar gyfer yr olaf yn cael eu pennu drwy ymgynghoriad rhwng Ymchwil y Senedd, gwasanaeth y Clercod, a’r Aelodau. Roedd ein cyfweliadau yn trafod y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r cymrodoriaethau, o ran staff y Cynulliad a chymrodyr, a gwahoddwyd awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Mae’r safbwyntiau a gynigwyd gan y grwpiau gwahanol o bobl a gafodd eu cyfweld wedi’u nodi isod.

*Manteision:*

Dywedodd staff y Cynulliad fod y cymrodoriaethau yn ychwanegu gwerth amlwg at waith y ddeddfwrfa ac at eu timau'n fwy penodol, gan ddod â sgiliau a/neu arbenigedd nad oedd ar gael yn fewnol. Mewn rhai achosion, gwnaeth y cymrodyr waith ymchwil a gynlluniwyd yn benodol i lywio gwaith parhaus pwyllgorau penodol. Y tu hwnt i'r fantais uniongyrchol o gael cymrodyr yn gwneud gwaith ymchwil sylfaenol neu'n darparu cymorth parhaus gyda maes gwaith penodol, pwysleisiwyd y manteision

anuniongyrchol niferus, ac annisgwyl mewn rhai achosion. Gofynnodd swyddogion i gymrodyr wirio bod gwybodaeth yn gwneud synnwyr a gwirio ffeithiau dogfennau briffio a chwestiynau ar gyfer tystion pwyllgorau, ac i awgrymu arbenigwyr ar gyfer ymchwiliadau. Roedd y rhan fwyaf yn disgwyl y byddai'r berthynas rhwng y cymrawd a'r Cynulliad yn parhau y tu hwnt i'r gymrodoriaeth, naill ai drwy'r llinyn penodol o waith yr oeddent wedi'i wneud neu drwy gydberthynas fwy llac ac anffurfiol yn seiliedig ar ymddiriedaeth. Fodd bynnag, nid oeddent yn siŵr sut y gellid hwyluso'r berthynas tymor hwy hon. Hefyd, o ran yr ochr gadarnhaol, nododd y staff fod Aelodau'n ymateb orau i gymrodyr pan oedd ganddynt ymwybyddiaeth dda o'u gwaith o'r dechrau. Roedd cynnwys Aelodau yn y broses o nodi pynciau ar gyfer cymrodoriaethau, eu cyflwyno i gymrodyr ar ddechrau'r prosiect a'u hatgoffa'n gyfnodol o'r gwaith a wneir, i gyd yn helpu i roi rhan i'r Aelodau yn y gymrodoriaeth.

Roedd y cymrodyr yn gadarnhaol iawn ynghylch y cynllun, gan ddweud eu bod wedi dysgu llawer am sut mae'r Cynulliad yn gweithio 'mewn gwirionedd', gan gynnwys ar sail fwy beunyddiol i'r rhai a dreuliodd amser yn Nhŷ Hywel. Roedd gan y cymrodyr ymwybyddiaeth amrywiol ymlaen llaw o waith y Cynulliad, gan gynnwys prosesau deddfwriaethol ac amserlenni, a rolau swyddogion ac ymchwil yn y cyd-destun hwn. Roedd y rhai a oedd yn gwybod llai ymlaen llaw ychydig yn siomedig oherwydd y diffyg cyfle i gyfarfod a meithrin cysylltiadau â'r Aelodau. Roedd y rhai a oedd yn gwybod rhagor ymlaen llaw, gan gynnwys drwy ryngweithio â swyddogion yn y gorffennol, yn teimlo eu bod yn gallu dyfnhau eu gwerthfawrogiad ymhellach o elfennau cynnil deddfwriaeth a gwaith craffu sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth. Nodwyd bod y cyfle i wella gwaith craffu drwy helpu i lenwi bylchau o ran gwybodaeth yn un o fanteision allweddol y cymrodoriaethau. Roedd defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad i lunio sesiynau briffio mwy hyddysg ar gyfer staff ac Aelodau, weithiau gan gynnwys gwaith ymchwil sylfaenol newydd, yn cael ei ystyried yn gyfraniad pwysig i sicrhau bod Aelodau'n dod yn fwy gwybodus ac yn gallu dwyn Gweinidogion i gyfrif. Roedd rhywfaint o sôn hefyd am y bri sy'n cyd-fynd â chymrodoriaeth, yn enwedig i'r brifysgol sy'n cyflogi'r academydd. Amlygwyd hyn yn arbennig gan academyddion o brifysgolion y tu allan i Gaerdydd, y mae pellter ffisegol yn rhwystr iddynt o ran ymgysylltu'n fwy rheolaidd â gwaith y Cynulliad.

Un thema allweddol a drafodwyd gydag academyddion a swyddogion yn y cyfweliadau oedd pwysigrwydd lleoliad. Treuliodd dau gymrawd yn y garfan ddiweddaraf amser sylweddol, oddeutu diwrnod bob wythnos, yn Nhŷ Hywel ac yng nghwmni eu tîm cyswllt neu'n agos ato. Daeth eraill i ymweld â'r Cynulliad ar gyfer hyfforddiant cynefino cychwynnol a chyfarfodydd achlysurol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, neu i friffio'r Aelodau, ond gwnaethant y rhan fwyaf o'u gwaith o bell. Dangosodd y cyfweliadau bod y ddau ddull o weithio, sef bod gyda'i gilydd a gweithio o bell – yn cynnig manteision ac anfanteision. I'r rhai a oedd yn ymweld â'r Cynulliad yn rheolaidd, roedd cyfle i weld gwaith swyddogion yn agos, mewn amser real, ac i fod wrth law i

gyfrannu at waith ehangach y tîm y tu hwnt i'r gymrodoriaeth benodol. Dywedodd un cymrawd fod hyn yn golygu ei fod yn teimlo fel 'un o'r tîm', ac yn newid diwylliant gwirioneddol – ac i'w groesawu – i'w waith mwy unig yn y brifysgol. Roedd cymrodyr eraill yn dibynnu ar gyswllt drwy e-bost ac ymweliadau mwy achlysurol, ond yn gyffredinol roeddent o'r farn bod hyn yn ddigonol. Roedd y staff a'r cymrodyr yn ystyried bod cadw amserlen reolaidd o ran cyfathrebu, er enghraifft drwy e-bost wythnosol neu alwad ffôn ar y dechrau, yn bwysig o ran darparu strwythur a meithrin cydberthynas rhwng y cymrawd a'u prif berson cyswllt. Mae'r hyblygrwydd hwn o ran arferion gwaith gan y Cynulliad yn bwysig o ran sicrhau bod academyddion a leolir y tu allan i Gaerdydd ac eraill sy'n wynebu rhwystrau o ran cydleoli rheolaidd, fel y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, yn parhau i allu cymryd rhan mewn cymrodoriaethau.

*Heriau*

Roedd y staff a'r cymrodyr yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â lleoli cymrodyr gyda'u timau cyswllt. Mae'r pryderon o ran amser hwyluso staff, adnoddau ar gyfer gosodiadau ymarferol (diogelwch, TG) a rheoli parhaus yn golygu bod cymysgedd o gydleoli a gweithio o bell ar gyfer cymrodoriaethau yn fwy cynaliadwy.

Roedd llawer o'r heriau eraill a nodwyd gan swyddogion yn canolbwyntio ar reoli disgwyliadau cymrodyr. Roedd hyn yn cynnwys cael cytundeb clir ar y dechrau o ran y canlyniadau a'r ffyrdd o weithio, i ystyried ble y byddai'r cymrawd wedi'i leoli, pryd y byddai'n gweithio ar y gymrodoriaeth, pa mor aml y byddai'n galw heibio, a'r prif gerrig milltir. Yr heriau eraill oedd diffinio'r gydberthynas rhwng cymrodyr a'u person cyswllt yn y Cynulliad, rheoli disgwyliadau o ran mynediad at Aelodau, ac addasu arddulliau ysgrifennu i gydymffurfio â safonau'r Cynulliad.

Dywedodd rhai cymrodyr hefyd fod ysgrifennu ar gyfer deddfwrfa'n heriol yn eu barn hwy. Mynegwyd parodrwydd i weithio ar hyn gyda chydweithwyr; yn wir, i rai, dywedwyd mai dysgu i ysgrifennu mewn ffordd sy'n gweddu i'r Cynulliad ac i'r Aelodau oedd un o fanteision allweddol y gymrodoriaeth. Byddai rhai cymrodyr wedi hoffi cael rhagor o gyfleoedd i gyfarfod a siarad ag Aelodau, ond y rhai a oedd yn gwybod llai am y Cynulliad ymlaen llaw oedd yn tueddu i ddweud hyn. Er bod cymrodyr yn teimlo'n gyffredinol bod eu gwaith gyda'r Cynulliad yn cael ei ystyried yn fawr ei fri gan eu prifysgolion, gwnaethant fynegi ychydig o ansicrwydd a phryder am yr angen i ddangos tystiolaeth o'u rhyngweithiadau ac effaith eu hymchwil ar y ddeddfwrfa. O'u rhan hwy, cafwyd ymatebion gwahanol iawn gan swyddogion pan ofynnwyd iddynt sut y gallent helpu cymrodyr i ddangos tystiolaeth o'u heffaith. Soniodd y rhan fwyaf ohonynt am y briffiau ymchwil a ysgrifennwyd ar y cyd fel arwydd o ymgysylltu, os nad yn arwydd o effaith o reidrwydd. Wrth holi ymhellach, mynegodd rhai aelodau o staff barodrwydd i ysgrifennu negeseuon e-bost/llythyrau personol gan nodi'r gwahaniaeth penodol yr oedd darn o waith ymchwil wedi'i wneud, er enghraifft, i argymhellion pwyllgor, tra oedd eraill yn ystyried bod hyn yn gwbl amhriodol neu'n anymarferol i raddau helaeth.

*Awgrymiadau ar gyfer gwella*

Cododd nifer o awgrymiadau penodol o ganlyniad i'r cyfweliadau, a nodir y rhain isod mewn tri cham: Recriwtio yn ystod y gymrodoriaeth; ac ar ôl y gymrodoriaeth.

*Recriwtio*

- Awgrymodd staff ac academyddion prifysgol y gellid hysbysebu'r cymrodoriaethau yn well, efallai gyda digwyddiad lansio yn y Cynulliad a allai helpu i godi proffil y cynllun.
- Roedd swyddogion o'r farn mai parhau â chymysgedd o gymrodoriaethau galwadau agored a galwadau wedi'u cyfeirio oedd y ffordd orau o sicrhau cefnogaeth pwyllgorau (drwy ymgynghori ar alwadau wedi'u cyfeirio) a chynnig cyfle i waith ymchwil academaidd dynnu sylw at faterion a ddylai, o bosibl, fod yn cael sylw'r Cynulliad (galwadau agored).
- Byddai ymgynghori â staff y Brifysgol ynghylch yr amserlen ar gyfer recriwtio cymrodyr yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn da bryd i'r staff gael eu rhyddhau o ddyletswyddau eraill (e.e. trefnu i benodi rhywun i addysgu dros dro).
- Byddai ychwanegu cais am sampl o waith ysgrifennu byr yn atodol at ddogfennau'r cais yn helpu staff i bwyso a mesur faint o gymorth y mae'n debygol y byddai ei angen ar academydd i gynhyrchu gwybodaeth mewn arddull sy'n gweddu i'r Cynulliad, ac i bwyso a mesur hyn yn ôl meini prawf eraill ar gyfer dethol (e.e. perthnasedd, amseroldeb, capasiti presennol ar gyfer hyn o ran Ymchwil y Senedd).
- Byddai ychwanegu cam cyfweld at y broses recriwtio yn rhoi cyfleoedd i drafod dealltwriaeth ymgeiswyr o'r Cynulliad a'u disgwyliadau o ran ffyrdd o weithio, i helpu rheolwyr y cynllun i ddeall a rheoli'r disgwyliadau hyn o'r dechrau.

*Yn ystod y gymrodoriaeth:*

- Canmolwyd yr hyfforddiant cynefino gan staff a chymrodyr, nid yn unig am roi trosolwg sylfaenol o'r Cynulliad ac o uned Ymchwil y Senedd, ond hefyd am ei fod yn rhoi cyfle i gymrodyr newydd gwrdd â'i gilydd a chlywed gan gyn-gymrodyr. Byddai creu cyfleoedd eraill i gysylltu yn ystod y gymrodoriaeth, fel cinio rhwydweithio hanner ffordd drwy'r rhaglen neu goffi misol, yn helpu i feithrin ymdeimlad o gymuned a gallai hefyd helpu cymrodyr i ddatrys cwestiynau ei gilydd, a fyddai'n lleihau'r baich ar staff y Cynulliad.
- Byddai cyfarfod contractio ar ddechrau'r gymrodoriaeth, gan ddefnyddio ffurf syml, yn helpu i gadarnhau disgwyliadau a rennir o ran canlyniadau, cerrig milltir, a ffyrdd o weithio. Bydd angen hyblygrwydd ar y ddwy ochr, ond byddai cytuno ar fanylion craidd yn rhoi arweiniad ar gyfer y berthynas. Os nad yw

cynnydd yn cael ei wneud, byddai hyn hefyd yn cynnig pwynt cyfeirio i'w drafod. Byddai cyfarfod o'r fath hefyd yn helpu i egluro trefniadau gweithio mewnol a chyfrifoldebau'r cymrodyr hynny a gydleolir.

*Ar ddiwedd y gymrodoriaeth*

- Ar ddiwedd pob cymrodoriaeth, neu o fewn un mis os oes angen ymgorffori gweithgareddau, fel cyhoeddi adroddiadau neu friffio Aelodau, dylai cymrodyr a'u person cyswllt lenwi ffurflen werthuso. Gellid modelu'r ffurflen yn ôl yr hyn a ddefnyddir gan ddeddfwrfeydd eraill y DU.
- Ar ddiwedd y gymrodoriaeth dylid cynnal cyfarfod 30 munud, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn/Skype, rhwng y cymrawd a'i brif berson cyswllt i drafod llwybrau dilynol. Byddai hyn yn cynnwys cynlluniau ymchwil y cymrawd, y gallai staff y ddeddfwrfa eu llywio neu gymryd rhan ynddynt, ac unrhyw waith arfaethedig gan y Cynulliad yn y dyfodol y gallai'r cymrawd gyfrannu ato.
- Yn seiliedig ar y ffurflenni gwerthuso neu ar negeseuon e-bost a anfonir at gymrodyr yn gofyn am fyfyrdodau, dylai'r Cynulliad gyhoeddi astudiaethau achos byr ynghylch cymrodoriaethau ar gyfer ei wefan a'i gyfryngau cymdeithasol. Gan adlewyrchu'r cymhellion a nodwyd yn gynharach ar gyfer academyddion a phrifysgolion, gallai'r rhain dynnu sylw at fanteision personol a phroffesiynol cymrodoriaethau, yn ogystal â dangos sut y mae'r rhain wedi cael effaith amlwg ar waith y Cynulliad.

Er mai cymrodoriaethau yw prif ffocws yr adroddiad hwn, daeth tair agwedd arall ar ymgysylltu academaidd i'r amlwg yn y cyfweliadau, a thrafodir y rhain isod.

## 6. Gweithgareddau ymgysylltu academaidd eraill

*Pwyllgorau*

Gall ymgysylltu academaidd â phwyllgorau fod yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Ar yr ochr ffurfiol, rhoddodd y rhai a gafodd eu cyfweld enghreifftiau o academyddion a gyflwynodd eu gwaith ymchwil mewn gweithdai ymgynghori ac o ddarparu cyflwyniadau o dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar. Penodwyd academyddion hefyd fel cynghorwyr pwyllgor, sef cydberthynas lle y mae academyddion yn cael eu contractio'n ffurfiol a'u talu am eu hamser. Yn anffurfiol, gofynnodd y swyddogion i academyddion adolygu ac awgrymu cwestiynau ar gyfer Gweinidogion, i gyfrannu at sesiynau briffio Aelodau, ac i wneud awgrymiadau o ran tystion. Roedd swyddogion o'r farn bod academyddion yn arbennig o ddefnyddiol wrth amlinellu'r tirlun ymchwil, wrth egluro'r sefyllfa bresennol o ran gwybodaeth ac yn ddelfrydol, ei oblygiadau polisi, ar gyfer swyddogion a'r Aelodau. Ystyriwyd bod academyddion hefyd yn adnodd

arbennig o werthfawr i bwyllgorau am eu bod wedi'u cyfyngu llai gan strwythurau ac arferion sy'n bodoli eisoes, a'u bod yn fwy tebygol o deimlo y gallent 'siarad am y gwir â phobl bwerus', na rhanddeiliaid eraill, fel darparwyr gwasanaethau. Gan mai ond nifer gymharol fach o arbenigwyr academaidd sy'n gallu rhoi sylwadau ar faterion polisi yng nghyd-destun Cymru, mae'r Llywodraeth a'r ddeddfwrfa yn aml yn ymgynghori â'r un unigolion. Nododd swyddogion mai goblygiadau hyn, o bosibl,oedd y gallai rhai academyddion roi dealltwriaeth iddynt o feddylfryd a gweithgareddau'r Llywodraeth. Mewn un achos, bu i academydd gynnwys swyddogion y Cynulliad mewn ymgynghoriad gan y Llywodraeth na fyddent fel arall wedi gallu ei gyrraedd na dylanwadu arno.

*Awgrymiadau ar gyfer gwella*

Cododd dau brif fater o ganlyniad i'r cyfweliadau, a oedd yn awgrymu camau y gellid eu cymryd i sicrhau bod y Cynulliad yn parhau i gael y gwerth gorau o'i ymgysylltiad ag academyddion o ran gwaith pwyllgorau.

- Roedd swyddogion yn synnu'n gyffredinol o weld cyn lleied o gyflwyniadau tystiolaeth a gawsant gan academyddion, a nodwyd yr hoffent gael rhagor. Nid oeddem yn gallu canfod a yw data'n cael eu casglu ynghylch cyfran y cyfraniadau at ymchwiliadau a ddaeth gan academyddion. Byddai darlun cynhwysfawr o hyn yn feichus, o ystyried bod ymchwiliadau yn elwa ar amrywiaeth o fewnbynnau ffurfiol ac anffurfiol. Fodd bynnag, byddai ychwanegu rhestr fer o opsiynau i'r rhai sy'n cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i bwyllgorau eu ticio wrth ddarparu eu cyflwyniadau yn darparu rhywfaint o ddata ar nifer a chyfran y cyfraniadau academaidd. Gellid defnyddio hyn i gymharu pwyllgorau ac i fesur effeithiolrwydd gweithgareddau allgymorth academaidd a gynhaliwyd ar gyfer ymchwiliadau penodol, yn ogystal â'r ffordd i gymharu â deddfwrfeydd eraill lle y casglwyd data o'r fath.
- Fel y trafodwyd yn adran 3, mae'r rhan fwyaf o academyddion yn gofyn am ryw fath o dystiolaeth o'u hymgysylltiad ac, yn ddelfrydol, effaith yr ymgysylltiad hwnnw, er mwyn cyfiawnhau'r amser a dreulir ar y gweithgareddau hyn. Pan gaiff academyddion eu galw fel tystion neu'n gynghorwyr, gall hyn gael ei adlewyrchu mewn adroddiadau pwyllgor, neu eu crybwyll mewn dadleuon. I academyddion sy'n rhoi mewnbwn anffurfiol, drwy sgyrsiau ffôn gyda swyddogion am friffiau a chwestiynau, ac i'r rhai nas cyfeirir atynt yn uniongyrchol mewn adroddiad, prin yw'r gydnabyddiaeth gyhoeddus o'u cyfraniad. Roedd rhai swyddogion o'r farn ei fod 'ond yn deg' i roi llythyrau cydnabyddiaeth byr i academyddion pe gofynnid iddynt wneud hynny, ac roedd rhai wedi gwneud hynny yn y gorffennol. Roedd eraill o'r farn y byddai hyn yn dra amhriodol, ac mai mater i bwyllgor yn unig oedd dewis p'un ai i gydnabod cyfraniad academydd yn gyhoeddus mewn adroddiad ai peidio. Er mwyn rhoi eglurder i swyddogion ac academyddion

fel ei gilydd, byddai rhannu polisi, ac os caiff ei gymeradwyo, templed o lythyrau cydnabyddiaeth, yn lleihau'r amser y byddai ei angen ar swyddogion i lunio llythyrau a byddai'n sicrhau dull gweithredu cyson.

*Interniaethau PhD*

Ni chafwyd llawer o drafodaeth o ran interniaethau PhD, ond pan wnaethant godi, ystyriwyd eu bod yn gadarnhaol. Roedd y rhain yn aml mewn cyferbyniad â'r academyddion â chymrodoriaethau academaidd. Mae interniaid PhD yn cael eu cydleoli a'u hintegreiddio â'u timau cyswllt am gyfnodau o dri mis. Dywedwyd eu bod yn adnodd gwerthfawr, yn cynhyrchu gwaith dan gyfarwyddyd y tîm cyswllt gan elwa'n bersonol hefyd, wrth ddatblygu eu sgiliau ymchwil ac ysgrifennu, a gwerthfawrogiad o'r prosesau gwaith a'r diwylliant mewn deddfwrfa. Mae lleoli interniaid gyda thimau cyswllt yn arwain at eu bod yn gwybod, i raddau helaeth, am waith y tîm o ddydd i ddydd. Roedd swyddogion o'r farn bod y cytundebau a lofnodwyd gan interniaid yn sicrhau lefel uchel o gyfrinachedd. Roedd hyn yn rhywbeth yr oeddent yn teimlo y gellid ei efelychu gyda chymrodyr academaidd, fel na fyddai angen i gymrodyr academaidd a gydleolir gael eu trin yn wahanol i interniaid PhD.

7. Casgliadau ac argymhellion

Mae'r cyfweliadau'n dangos yn glir bod ymgysylltu academaidd yn cael ei ystyried yr un mor fuddiol i bob ochr o ran swyddogion deddfwriaethol, ymchwilwyr academaidd a phrifysgolion. I'r ddeddfwrfa, fodd bynnag, mae costau yn bodoli, yn enwedig o ran amser swyddogion, sy'n golygu ei bod yn hanfodol cael y gwerth gorau posibl o'r cyfnewid hwn. Yn seiliedig ar y drafodaeth yn yr adroddiad, rydym yn gwneud yr argymhellion penodol a ganlyn:

a. Dylid sicrhau dull cyson o weithredu ar draws y pwyllgorau i gydnabod cyfraniadau academaidd, a lleihau faint o amser staff sy'n cael ei neilltuo ar gyfer hyn, dosbarthu canllawiau ar fathau derbyniol o gydnabyddiaeth a phrosesau ar gyfer llunio'r rhain, gan gynnwys templedi o lythyrau cydnabod.
b. Trafod opsiynau i ychwanegu cais syml i'r rhai sy'n darparu cyflwyniadau ar-lein i bwyllgorau i nodi a ydynt yn cyflwyno eu cais fel unigolyn â diddordeb, fel ymchwilydd academaidd neu fel cynrychiolydd o'r trydydd sector. Byddai hyn yn caniatáu cymharu cyfran a nifer yr ymatebion gan academyddion ar gyfer gwahanol bwyllgorau a thros amser.
c. Ystyried cynnal digwyddiad lansio ar gyfer cymrodoriaethau yn y Cynulliad i helpu i godi proffil ac ymwybyddiaeth o'r cynllun, i feithrin cysylltiadau â staff prifysgolion perthnasol ledled Cymru.

d. Cadw cymysgedd o gymrodoriaethau galwadau wedi'u cyfeirio a chymrodoriaethau galwadau academaidd agored, gan sicrhau cefnogaeth gan y pwyllgorau drwy ymgynghori o ran galwadau wedi'u cyfeirio, a rhoi cyfle i ymchwil academaidd dynnu sylw at faterion nad ydynt, o bosibl o fewn ymwybyddiaeth y Cynulliad.
e. Gofyn am sampl ysgrifennu byr gyda cheisiadau cymrodoriaeth academaidd, i bwyso a mesur hwn yn ôl meini prawf eraill ar gyfer dethol (e.e. perthnasedd, amseroldeb, capasiti presennol ar gyfer hyn o ran Ymchwil y Senedd).
f. Ychwanegu cam cyfweliad at y broses recriwtio ar gyfer cymrodyr academaidd, er mwyn canfod dealltwriaeth ymgeiswyr o'r Cynulliad a'u disgwyliadau o ran ffyrdd o weithio, gan helpu rheolwyr y cynllun i ddeall a rheoli'r disgwyliadau hyn o'r dechrau.
g. Nodi a hyrwyddo cyfleoedd i gymrodyr gysylltu â'i gilydd yn ystod y gymrodoriaeth, fel cinio rhwydweithio hanner ffordd drwy'r rhaglen neu goffi misol. Byddai hyn yn meithrin ymdeimlad o gymuned a gallai helpu cymrodyr i ddatrys cwestiynau ei gilydd, gan osgoi rhoi'r baich hwn ar staff y Cynulliad.
h. Cyflwyno cyfarfod contractio ar ddechrau'r gymrodoriaeth, gan ddefnyddio ffurf syml, i gadarnhau disgwyliadau a rennir o ran canlyniadau, cerrig milltir, a ffyrdd o weithio. Os nad yw'r cynnydd a ddisgwylir yn cael ei wneud, byddai hyn yn darparu pwynt cyfeirio i'w drafod.
i. Ar ddiwedd pob cymrodoriaeth, dylai cymrodyr a'u tîm cyswllt lenwi ffurflen werthuso. Gellid modelu hon ar yr hyn a ddefnyddir gan ddeddfwrfeydd eraill y DU, a dylai'r ffurflen hon nodi beth a fu'n llwyddiant a beth na fu'n llwyddiant, a byddai hyn yn hyrwyddo dysgu ar gyfer unigolion ac ar gyfer carfannau fel ei gilydd.
j. Ar ddiwedd y gymrodoriaeth dylid cynnal cyfarfod 30 munud, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn/Skype, rhwng y cymrawd a'r person cyswllt i drafod llwybrau dilynol. Byddai hyn yn cynnwys cynlluniau ymchwil y cymrawd, y gallai staff y ddeddfwrfa eu llywio neu gymryd rhan ynddynt, ac unrhyw waith arfaethedig gan y Cynulliad yn y dyfodol y gallai'r cymrawd gyfrannu ato.
k. Er mwyn hyrwyddo'r cynllun cymrodoriaeth academaidd, dylai'r Cynulliad gasglu astudiaethau achos byr o gymrodoriaethau ar gyfer ei wefan a'i lwyfannau ar y cyfryngau cymdeithasol. Dylai'r rhain adlewyrchu'r cymhellion i ymgysylltu ar gyfer academyddion a phrifysgolion, a gallent amlygu manteision personol a manteision proffesiynol cymrodoriaethau a'r ffordd y maent wedi cael effaith amlwg ar waith y Cynulliad.